

Tirlithriad y Rhiw

Y mis diwethaf, bu Rhian Jones yn bwrw golwg ar y sefyllfa bresennol yn Y Rhiw ar 81 i'r brif ffordd yno gael ei chau chwe mis yn 81 yn dilyn tirlithriad. Y mis hwn, mae rhai o drigolion eraill 'Y Rhiw yn dweud eu dweud:



Rodd Cyngor Gwynedd, yn 81 Dafydd Wigley, am i Sue Essex ymweld â'r Rhiw, felly gwarth o beth yw ei bod wedi gwrthod. Ai dyma agwedd y Cynulliad at gymunedau bach cefn gwlad? Fel cynghorydd cymuned Y Rhiw rwy'n teimlo ein bod yn brwydro ar ein pennau ein hunain. Mae sawl peth yn fy mhoeni a sawl cwestiwn yn codi ei ben ond does dim atebion i'w cael; mae pawb yn taflu'r cyfrifoldeb ar rywun arall. Dyma fy nghwestiynau:

1. A ydyw Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd eisiau symud ymlaen i weithredu eu cynlluniau ar gyfer lôn newydd ynteu oes rhywun yn baglu'r datblygiad?
2. A ydyw Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r caledi y mae'r ardalwyr yn ei ddiodef ers hanner blwyddyn?

3. Beth sydd wedi dod o'r cais am arian i wneud y ffordd?
4. Ydy'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cefnogi neu'n gwrthwynebu rhyddhau'r tir ar gyfer lôn newydd?
5. Pam mae rhai ymwelwyr yn cael allwedd i agor y giatiau caeedig pan mae'r lôn yn rhy beryglus i'r ardalwyr ei defnyddio? (Mae llygad-dystion i hyn!)
6. Pam nad yw'r Prif Beiriannydd a'i dîm yn symud ymlaen o'r cynlluniau sydd wedi cael eu cefnogi gan y cyngor cymuned a phobl yr ardal?

Mae'r cyngor cymuned yn trefnu cyfarfod cyhoeddus yn ystod mis Gorffennaf i geisio cael atebion i'r cwestiynau hyn. Tybed faint o swyddogion fydd yn derbyn y gwahoddiad ac yn gwneud yr ymdrech i ddod yno?

Tecwyn Jones



Gobeithio nad ydych wedi ein anghofio yn Y Rhiw! Ers y tirlithriad, mae bywyd wedi mynd yn anodd iawn - yn enwedig i'r rhai hynaf ohonom. Mae'r ffyrdd bach mor gul fel ei bod yn anodd iawn i ddau gar basio ei gilydd, a gwaethygu wnaiff y broblem yn ystod yr haf. Mae mynd rownd Aberdaron yn golygu siwrna hir iawn a llawer mwy o betrol. Taer erfynwn am gymorth gan y cynghorwyr lleol i gyd.

Megan Wyn Jones, Carreg Lefain.

Mae'r sefyllfa oherwydd y lôn yn anghyfleus iawn. Mae'n cymryd hirach i fynd allan o'r pentref, ac yn ychwanegu milltiroedd at y daith i Bwllheli. Mae'r lonydd dargyfeirio yn ychwanegu at daith y fferch i Goleg Menai, sy'n golygu bod rhaid iddi gychwyn dipyn yn gynt nag o'r blaen. Mae'r gŵr hefyd yn gorfod cychwyn am ei waith yn gynt bob diwrnod. Mae'r milltiroedd ychwanegol yn golygu ei fod angen mwy o betrol yn ei fan, sy'n golygu mwy o gostiau trafeilio yn wythnosol.

E.W. Roberts, Rhiwlas.



Bob nos Lun am 4.30 mae gennyf wers nofio. Rydwyf yn ceisio am y bathodyn aur y tymor yma. Byddaf yn cyrraedd adref ar y bws o Ysgol Botwnnog am ychydig ar ôl pedwar. Mae'r daith i Bwllheli mor hir rŵan fel fy mod yn hwyr i'm gwrs. Mae hyd yn oed Dad yn methu cyrraedd yno mewn pryd!

Rhydian Tecwyn Jones

Pa bryd mae Cyngor Gwynedd a'r Cynulliad am gychwyn ar y gwaith o wneud ffordd newydd Y Rhiw? Rydym yn byw ym Mhencaerau a chyn y tirlithriad yr oedd pedwar ohonom yn trafeilio dros Y Rhiw i'n gwaith bob dydd. Mae gorfod mynd drwy'r Sarn yn golygu, ar gyfartaledd, 110 o filltiroedd rhyngddom, heb sôn am gost y petrol a'r amser ychwanegol. Gobeithio na fydd rhaid aros yn hir cyn gweld dechrau ar y gwaith.

Wil, Bethan, Endaf, Gwenllian, Bod Hyfryd, Pencaerau.



Mae'r ffaith bod y ffordd wedi'i chau yn anghyfleus iawn i mi gan fod rhaid i mi deithio ar hyd dargyfeiriad gwael iawn. Dydy'r ffordd yma ddim yn addas ar gyfer cerbyd o'r math sydd gen i ac mae'r syniad o orfod teithio ar hyd y ffordd hon yn barhaol yn gwneud i mi deimlo'n hollol ddigalon. Mae'r ffordd yn beryglus hyd yn oed yn yr haf ond yn y gaeaf fe fydd bron yn amhosib i'w defnyddio.

Rachel, Lôn Las.

R. Henshaw

Deliwr mewn
DODREFN AIL-LAW
A HEN BETHAU



Cliriad tai yn llwyr
Telir prisiau teg

Ffoniwch Roger ar Nefyn 720260

Cartref Preswyl

Perchnogion: Hywel a Wini Fôn Lewis

LLWYNFOR

Cartref oddi cartref

STAFELL DDWBL A SENGL A GOFAL DYDD AR GAEL.

Lôn Penrhos, Morfa Nefyn, Pwllheli LL53 6BL 01758 720467

Dyddiadur Dwy Ganrif

FEL'NA ROEDD HI

Ar 81 bod yn edrych trwy hen gopïau o'r 'Herald Gymraeg' am y flwyddyn 1900, mae'n rhaid cyfaddef fy mod yn siomedig o weld cyn lleied o newyddion oedd ynddynt o bentrefi Pen Llŷn: diffyg gohebu oedd yn gyfrifol mae'n debyg. Er hynny cefais ambell i bwt difyr sy'n rhoi gwybodaeth i ni am y gorffennol.

Mis Chwefror. Yn ynadlys Pwllheli darllenwyd llythyr oddi wrth dad un o'r dynion a gollodd ei fywyd ac y cafwyd ei gorff ar dueddau Porth Neigwl. Holi am fanylion yr oedd y llythyrwr ac mae'n hawdd gweld ei fod yn ddieithr i'r ardal gan iddo gyfeirio i lythyr at Faer Plwyf Gwledig Llanfaelrhys!

Y mis hwn y bu farw E. Pritchard, llythyrgludydd 70 oed hefyd, sy'n cael ei ddisgrifio fel hen ŵr ffyddlon a arferai gario'r post o Bwllheli i Lithfaen. O dan Abersoch, sonnir bod y cwmni oedd yn berchen ar yr ager long "Telephone" yn debyg o gael llestr arall eto i deithio i wahanol fannau.

Ceir stori am wroldeb o dan Tudweihog gan i Evan Williams, amaethwr o'r ardal, fod yn gyfrwng i achub bywydau tri morwr oddi ar fwrdd yr "Annie" pan fu iddi gael ei dryllio ym Mhorthysgaden ar yr wythfed o Ionawr. Cafodd ei anhegu gyda barometer gan yr RNLI. Tybed a yw'r barometer yn Nhudweiliog o hyd?

Mis Mawrth. Claude Edwards, Nanhoron yn derbyn gwahoddiad i fod yn llywydd Cymdeithas Amaethyddol Llŷn ac Eifionydd. Trwydded tafarn Tŷ Newydd y Sam yn cael ei throsglwyddo yn ynadlys Pwllheli i Mrs. Ellen Williams, gweddwr diweddar denant.

Mis Ebrill. Tybed wnaeth tua chant a hanner o aelodau Ysgol Sul Hebron fwyta gormod ar ddydd Llun y Pasg pan gafwyd gwledd o de a bara brith? Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan Mrs. E. Jones, Sychnant; Mrs. R. Jones, Tan y Bryn; Mrs. M.A. Jones, Llety Adda; Mrs. A. Griffiths, Tŷ Capel a'r Misses R. ac M. Thomas, Shop; C. ac L. Jones, Penybont; A. Jones, Tir Gwenith; E. Griffith, Fair View; S. Jones, Tŷ Capel a lliaws eraill. Rhyfedd fel y mae nifer yr aelodau wedi gostwng erbyn heddiw.

Mis Mai. Roedd galwad anghyffredin am weision yn ffair pentymor Pwllheli ac oherwydd hynny roedd cyflogau uchel yn cael eu gofyn. Yr oedd bechgyn yn cael o £6 i £10, tra bo gweision hŷn yn cael o £15 hyd at £18, a rhai yn cael £20. Cwynai'r ffermwyr yn ôl eu harfer.

Cafwyd damwain ym Mynytho pan fu i ddeurodwr (hen air Cymraeg am feiciwr) o'r enw Davies o Lerpwl yrru yn chwym i lawr gallt serth a tharo yn erbyn wal gerrig. Derbyniodd niwed tra phoenus, ac o ganlyniad bu raid iddo dderbyn gofal meddygol. Ys gwn i sut siâp oedd ar y beic?

Gan nad oedd ganddynt gartref sefydlog, penderfynodd R. Carreg Ysw, a J.G. Jones Ysw. yrru Daniel Lloyd a'i wraig i garchar am fod yn feddw ac afreolus yn nhafarnau'r dref.

Diwrnod bywiog yn ffair y Sam, heblaw am ddieter y ffermwyr oherwydd y cyflogau uchel a ofynnai'r gweision.

Mis Mehefin. Damwain dost yw'r disgrifiad o'r hyn a ddigwyddodd yn chwarel yr Eifl ddiwedd Mai. Ymddengys bod John Jones, Ysgubor Hen, rywfodd wedi mynd yn gaeth yn wifren y drwm weindio ac wedi cael ei dynnu i mewn i'r peiriant. Bu raid i'r Meddygon Rowlands Llanaelhaearn, Roberts Penygroes a Watkins Caernarfon dorri ymaith ei fraich. Bu farw'r truan ychydig yn ddiweddarach.

Mis Gorffennaf. Y Bedyddwyr yn bwriadu adeiladu capel newydd yn Aberdaron gan i Capten Evans, Allt Felen ger Pwllheli, addo tir iddynt at y pwrpas. Roedd y Wesleiaid hwythau am "gadw i fyny â'r Jonsiaid" ac yn bwriadu codi achos newydd ym Mhenycaerau. Eglwys Salem Pwllheli wedi anfon cais at holl eglwysi'r dref i alw sylw yn erbyn deurodi (beicio) ar y Sul, ac ni allaf lai na chredu bod yr hysbys eb a ymddangosodd o dan yr uchod wedi creu peth drwgdeimlad rhwng selogion Salem a'r dyn beics yn Ffordd Caerdydd, gan i'r masnachwr hwnnw gynnig beiciau o safon da am brisiau rhesymol. A oedd lleoliad yr hys-bys yn y papur yn fwiadol tybed?

Pe bai'r hyn a ddigwyddodd un bore Mercher yn Stryd Penlan wedi digwydd yn y siop feics, hawdd fuasai i hoelion wyth Salem gredu mai rhyw nerth ysbrydol fuasai ar waith - ond yn lle hynny Mr. Williams barchus y Central Stores dderbyniodd yr anffawd trwy i drol fynd yn erbyn ffenestr fwyaf ei siop.

pen i amryw o drigolion Llŷn yn ogystal â thrangwyddo yn erbyn cewri'r ymgyrch ddirwestol, pan olchwyd nifer fawr o gasgenni wisgi a chwrw i draethau'r penrhyn (er nad oedd hyn yn ddim o'i gymharu â'r llongdrylliad oedd i ddigwydd wyth mis yn ddiweddarach pan wnaeth y "Stuart" wasgaru ei llwyth ar draeth Tŷ Mawr, Llangwnnadr). Gan fod rhai eisoes wedi camu oddi ar y llwybr cul yn dilyn profi o gargo yr "Embleton" a ddrylliwyd y tu allan i Gaergybi ychydig ddiwrnodau ynghynt, efallai mai symbylu trigolion Uwchmynydd i ymuno â'r Wesleiaid a wnaeth i E.L.L. Jones, Ysto Helyg roi darn o dir a £10 at adeiladu capel newydd i'r enwad yn ei ardal. Mae un peth yn sier: cafodd yr hanes sylw gan ohebydd Aberdaron.


Ffurfiwyd clwb golff newydd ym Mhwllheli yn ystod y flwyddyn hon, ac mae'n siŵr fod hyn yn ogystal â'r maes adloniant a'r dramffordd newydd o Ben y Cob i'r South Beach a agorwyd y flwyddyn cynt wedi denu mwy o ymwelwyr arhosol nag erioed o'r blaen, 2000 ohonynt yn ôl yr ystadegau.

Y mis yma dirwywyd Owen Hughes, Stryd Dywod am yrru ceffyl yn rhy gyflym i fyny Stryd Moch. Roedd yr ynadon wedi cael llond bol ar y gyrru diofal a chyflym yn y dref, a rhaid oedd rhoi terfyn ar yr arferiad.

Mis Hydref. Mae canfod corff ar lan y môr yn brofiad eitha ysgytwol, ond mae canfod corff plentyn yn waeth eto, a dyna a ddigwyddodd ar un o draethau Tudweiliog yn yr hydref. Y gred oedd mai mab Capten W.S. Cassey o'r llong "Gordon Castle" ydoedd. Claddwyd y plentyn deunaw mis oed yn barchus gan yr heddgidwad ar ddymuniaid ei fam, yr hon a achubwyd.

Mis Tachwedd. Dyma'r rhifyn olaf, gan fod rhifyn Rhagfyr wedi mynd i ddi-fancoll. Er imi fod braidd yn siomedig ar y dechrau cefais lawer o fwyniant yn bodfedda drwy'r tudalennau brau. Tybed a gafodd David Goodman, Carmel, Mynytho gymaint o bleser pan ymwelodd â thafarn y New Inn yn Llangian? Go brin, gan iddo fynd dros ben llestri a chael ei hunan o flaen ynadon Pwllheli! Cafodd swllt o ddirwy am fod yn feddw.

Gwilym Felin, Tudweiliog



Cafwyd storm enfawr ar ddiwedd y mis a bu i ŵr o'r enw Thomas Griffith golli ei fywyd tra allan gyda'i gwch "Minnie" yng nghyffiniau Porth Neigwl,

Mis Awst. Canfod corff Thomas Griffith wedi ei olchi i'r lan yn Abersoch, hefyd newyddion drwg o Laniestyn am farwolaeth sydyn Mrs. Jones, Cae Canol, gan iddi ymadael â'r fuchedd hon tra ar ei ffordd adref o'r capel. Digon tebyg oedd y galaru yn Edern hefyd gan i weddillion Edward Parry a fu ar goll er yr 21ain o Orffennaf ddod i'r amlwg.

Daeth broc môr y mis yma â chur

Tybed a oes gennyh hen newyddiaduron o'r cyfnod cyn 1930: C. & D., Yr Herald Gymraeg neu'r North Wales Gazette, Chronicle a.y.y.b., hefyd amryw hen ddogfennau a fedd dafnu goleuni ar y gorffennol? Buaswn yn ddiolchgar pe cawn eu gweld neu eu benthg. Caent eu dychwelyd yn ddiogel. Diolch.

LLUNIAU

Os ydych yn gyrru lluniau i'w cyhoeddi yn y 'Llanw' a fyddoch gystal â sgrifonnu eich enw a'ch cyfeiriad ar y cefn